

Cyf: PED/dd

Tachwedd 2019

Annwyl Riant.Warcheidwad

Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr 2018-19

Hoffwn eich hysbysu bod yr Adroddiad uchod yn cael ei gyhoeddi ar wefan yr ysgol – www.ysgolbrogwaun.com Os ydych yn dymuno cael copi papur, a newch chi gysylltu a swyddfa'r ysgol, os gwelwch yn dda?

Gwybodaeth am ganllawiau statudol sy'n ymwneud â chyfarfodydd Corff Llywodraethu gyda rhieni

Yn weithredol o 4 Mai, 2013, nid yw hi'n ofynnol i gyrff llywodraethu gynnal cyfarfod blynyddol gyda rhieni 'mwyach.

Mae Canllawiau statudol newydd wedi cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru i'r perwyl hwn (104/2013).

Mae gan rieni bellach yr hawl i ofyn am hyd at dri chyfarfod y flwyddyn gyda'r corff llywodraethol, i drafod materion sy'n ymwneud â hwy. Rhaid i'r diben fod i drafod materion sy'n ymwneud â'r ysgol. Ni all fod am gynnydd disgyblion unigol, nac i gwyno yn erbyn aelodau o staff neu'r corff llywodraethol.

Gweler fanylion am yr uchod ar wefan yr ysgol.
www.ysgolbrogwaun.com, neu ar gefn y dudalen.

Atodiad B – Eich hawl i ofyn am gyfarfod gyda chorff llywodraethu'r ysgol.

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth.

Yn gywir

Mr P Edwards
Pennaeth



ITT Programme
Partner School

Atodiad B - Eich hawl i ofyn am gyfarfod gyda chorff llywodraethu'r ysgol

Roedd yn arfer bod yn ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion gynnal cyfarfod blynyddol gyda rhieni. Cafodd y gofyniad hwnnw ei ddileu gan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (y Ddeddf). Yn lle hynny, cyflwynwyd trefniadau newydd fel y bo modd i rieni ofyn am hyd at 3 chyfarfod gyda chorff llywodraethu mewn unrhyw flwyddyn ysgol, i drafod materion sy'n peri pryder iddyn nhw.

Os yw rhieni am arfer eu hawliau dan y Ddeddf i gynnal cyfarfod, bydd angen bodloni 4 gofyniad:

1. Bydd angen i rieni gyflwyno deiseb o blaid cynnal cyfarfod.

Bydd angen i rieni o leiaf 30 o ddisgyblion cofrestredig lofnodi'r ddeiseb. Yn achos deiseb ar bapur, rhaid rhoi llofnod ysgrifenedig, yn ogystal ag enw a dosbarth pob plentyn sy'n ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol. Os yw'r ddeiseb yn un electronig, bydd angen i riant 'lofnodi' drwy deipio ei enw a bydd rhaid rhoi enw a dosbarth pob plentyn sy'n ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol a chyfeiriad e-bost pob riant sy'n 'lofnodi'r' ddeiseb electronig.

2. Rhaid galw'r cyfarfod i drafod materion sy'n effeithio ar yr ysgol.

Ni ellir galw cyfarfod i drafod materion fel cynnydd disgyblion unigol, neu er mwyn gwneud cwyn yn erbyn aelod o staff yr ysgol neu aelod o'r corff llywodraethu.

Dylai'r ddeiseb gynnwys manylion cryno am y mater(ion) i'w trafod, a'r rhesymau dros alw'r cyfarfod. Dylid dangos yr wybodaeth honno'n glir ar frig y ddeiseb, a dylai'r rhieni lofnodi oddi tani.

3. Ceir cynnal uchafswm o 3 chyfarfod yn ystod y flwyddyn ysgol

Mae'r gyfraith yn caniatáu i rieni arfer eu hawliau i ofyn am hyd at 3 chyfarfod gyda chorff llywodraethu ysgol yn ystod y flwyddyn ysgol.

4. Rhaid bod o leiaf 25 o ddiwrnodau ysgol ar ôl yn y flwyddyn ysgol

Mae'n amod dan y gyfraith fod o leiaf 25 o ddiwrnodau ysgol ar ôl yn y flwyddyn ysgol pan fo'r ddeiseb yn dod i law, a hynny fel y bo modd cynnal y cyfarfod.

Ystyr "diwrnod ysgol" yw diwrnod pan fo'r ysgol yn agored i ddisgyblion: nid yw'n cynnwys penwythnosau, gwyliau cyhoeddus, gwyliau ysgol na diwrnodau Hyfforddiant mewn Swydd (HMS).

Dyma'r cyfeiriad ar gyfer cyflwyno deiseb yn gofyn am gyfarfod gyda chorff llywodraethu'r ysgol:

Cadeirydd y Corff Llywodraethol, d/o Ysgol Bro Gwaun, Heol Dyfed, Abergwaun, Sir Benfro SA65 9DT.

office@ysgolbrogwaun.com

Mae rhagor o wybodaeth i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru ynghylch sut gall rhieni fynd ati i ofyn am gyfarfod gyda chorff llywodraethu:

<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/parents-meetings-statutory-guidance/?lang=cy>

Llofnod:



Mr P Edwards
Pennaeth

Dyddiad: Tachwedd 2019